# CYFLE CYFFROUS!

## Yr Hen Giosg Pitsio a Phytio, "Y Cwt",
## Parc Gwledig Porthceri, Y Barri
## Trwydded am flwyddyn gydag opsiwn o 2 flynedd arall







**GWAHODD CYNIGION GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**

Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

## 1 Cefndir

Sir arfordirol yn ne Cymru yw Bro Morgannwg. Mae amgylchedd ac asedau naturiol o ansawdd uchel, sy'n cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg, yn ei gwneud yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer twristiaeth a gweithgareddau hamdden. Yn fwy diweddar, bu buddsoddiad sylweddol ar lefel ranbarthol a lleol gan ddenu busnesau o bob maint.

Mae Parc Gwledig Porthceri yn brolio 220 acer o goedwigoedd a dolydd mewn dyffryn cysgodol yn arwain at draeth cerrig a chlogwyni anhygoel. Mae prosiect newydd i wyllltio'r hen gwrs golff wedi cael ei weithredu’n ddiweddar ac mae'r ardal chwarae a'r dirwedd wedi cael eu gwella.

Mae’r Cwt yn swatio o dan draphont drawiadol Porthceri. Mae'r adeilad dafliad carreg o amwynderau'r safle (toiledau, meysydd parcio, llety, lle chwarae a llwybrau cerdded) ac mewn lleoliad ddelfrydol i ddatblygu canolfan arlwyo arloesol ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr






## 2 Trwydded

Mae’r Cyngor yn cynnig consesiwn ar gyfer yr adeilad arloesol yn y lleoliad a nodir yn goch ar y cynllun. Ni chaniateir masnachu dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw leoliad heblaw am yr un a ddangosir ar y cynllun.

Bydd y defnydd a ganiateir ar gyfer gwerthu bwyd a diod poeth ac oer; llogi beiciau; canolfan gweithgareddau hamdden; a/neu fanwerthwyr ar raddfa fach sy’n berthnasol i’r ardal gyfagos.

## 3 Amseroedd Masnachu

Mewn amgylchiadau arferol, mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd masnachu’n digwydd bob dydd drwy gydol cyfnod y drwydded gan ddechrau dim hwyrach na 9:00 a dod i ben am 18:00. Caniateir masnach gyda'r nos tan 21:00 ar yr hwyraf yn ystod oriau brig (yn amodol ar adolygiad).

## 4 Telerau Gweithredu

Bydd angen i’r Trwyddedai weithredu ar y sail ganlynol:-

a) Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod o leiaf un oedolyn cymwys yn bresennol yn y ciosg ac yn ei reoli trwy’r amser.

b) Ystyrir bod y Trwyddedai wedi archwilio’r holl gyfleusterau cyn dechrau’r Brydles. Mae’r Prydlesai’n cytuno i gymryd y ciosg yn ei gyflwr presennol a’i roi yn ôl i’r Cyngor mewn cyflwr nad yw’n waeth na’r cyflwr presennol ar ddiwedd cyfnod y Drwydded.

c) Bydd y Trwyddedai’n gyfrifol am gadw lleoliad y ciosg mewn cyflwr glân a thaclus.

d) Bydd y Trwyddedai’n annog y cyhoedd i ddefnyddio’r ciosg a bydd yn sicrhau bod agwedd a safonau staff o’r safon uchaf ac yn cael eu cynnal trwy’r amser.

e) Bydd y Trwyddedai’n sicrhau nad yw defnyddwyr cyfleusterau’r ciosg yn achosi nac yn caniatáu unrhyw niwsans neu aflonyddwch i unrhyw aelod o’r cyhoedd neu i berchnogion eiddo cyfagos neu gerllaw.

f) Ni fydd y Trwyddedai’n caniatáu nac yn achosi i unrhyw sbwriel gael ei adael ar y safle a bydd yn gyfrifol am:
- Ddarparu biniau sbwriel priodol;
- Sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wagio a'i symud o'r safle yn rheolaidd; a
- Chydymffurfio â pholisïau ailgylchu a gwaredu gwastraff y Cyngor.

g) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024.

h) Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod y ciosg yn cael ei weithredu mewn modd cyfrifol sy’n cydymffurfio â’r gyfraith ar bob adeg. Bydd graddfa gostau’n cael ei harddangos yn glir yng nghyfleusterau’r consesiwn bob amser.

i) Mae’r Trwyddedai’n gyfrifol am sicrhau bod ei staff a’i asiantau’n cael eu hysbysu ynghylch sut mae dod i’r safle yn ddiogel. Nid yw’r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am weithred sy’n arwain at ddifrod i gerbyd.

j) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y ciosg yn ennill ac yn cynnal Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol o 3 neu uwch. Dylid cyflwyno copi o hyn wrth wneud cais am y tendr.

k) Mae trydan a dŵr ar gael y codir tâl amdanynt ar y Trwyddedai. Nid oes draenio, ond mae draenio yn y cyfleusterau cyhoeddus cyfagos ar gyfer dŵr yn unig.

l) Ni ddylai'r Trwyddedai arddangos unrhyw hysbyseb neu boster ac eithrio'r prisiau a'r sgôr hylendid.

m) Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am gynnal contract rheoli plâu ar gyfer y Safle.

n) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod yr holl ddanfoniadau wedi'u cwblhau erbyn 12:00.

o) Bydd y Trwyddedai'n cael dwy drwydded parcio ar gyfer defnydd y busnes yn unig. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw fannau parcio wedi'u cadw i'r Trwyddedwr.

p) Ni ddylai'r Trwyddedai na'i staff achosi unrhyw annifyrrwch i ddefnyddwyr y safle na gwneud unrhyw beth a fyddai'n dwyn anfri ar enw da'r Trwyddedwr.

## 5 Defnyddiwr

Bydd y Drwydded arfaethedig yn caniatáu i'r Trwyddedai werthu bwyd a diod poeth ac oer; llogi beiciau; canolfan gweithgareddau hamdden; a/neu fanwerthwyr ar raddfa fach sy'n berthnasol i'r ardal gyfagos.

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:

1. Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
2. Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol ar y Safle.
3. Ni chaniateir defnyddio plastigau untro.
4. Ni chaniateir darparu anifeiliaid byw fel gwobrau.
5. Ni chaniateir lansio llusernau awyr Tsieineaidd

## 6 TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI (TPY)

Mae'r ciosg wedi'i eithrio.

## 7 Gosod

Y Trwyddedai fydd yn gyfrifol am osod y ciosg ac, ar gais y Trwyddedwr, ei wagio ar ddiwedd y drwydded. Mae'r cynllun gosod i'w gymeradwyo gan y Trwyddedwr. Bydd pythefnos yn cael ei chaniatáu ar gyfer gosod.

## 8 Cyfnod y Drwydded

Bydd y Drwydded arfaethedig am gyfnod o 1 flwyddyn o leiaf ar ôl cwblhau'r Drwydded. Gellir ymestyn hyn am 2 flynedd arall yn ôl disgresiwn y Cyngor.

## 9 Ffi

Ffi'r Drwydded fydd y swm ar y ffurflen dendro lwyddiannus (h.y. ffi gyfan y Drwydded) ac ni fydd yn cynnwys yr holl ardrethi, trethi a threuliau eraill y gellir eu codi ar y consesiwn. Bydd angen talu ymlaen llaw am Ffi'r Drwydded am y flwyddyn gyntaf. Ni chaiff unrhyw Drwydded Consesiwn ei rhoi ac ni chaiff unrhyw weithredwr ei ganiatáu i ddechrau masnachu nes y caiff Cytundeb y Drwydded ei gwblhau ac nes y bydd Ffi'r Drwydded a'r costau wedi'u talu'n llawn.

**O.N**. Bydd ffi'r drwydded flynyddol sy'n cael ei thendro yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

## 10 Atgyweiriadau

Y Trwyddedwr fydd yn gyfrifol am yr holl atgyweiriadau ac eithrio offer y Trwyddedai.

Y Trwyddedai fydd yn gyfrifol am ac yn indemnio'r Trwyddedai yn erbyn unrhyw ddifrod i'r safle a achosir gan ddefnydd a meddiannaeth y Trwyddedai o'r safle.

## 11 Ffioedd a chostau

Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bro Morgannwg, sef £156 (cant a phum deg chwech o bunnoedd) heb gynnwys TAW, a chostau Cyfreithiol priodol y Cyngor, sef £204.67 (dau gant a phedair punt chwe deg saith ceiniog) ar gyfer paratoi'r Drwydded a'i gwrthran

## 12 Ardrethi a threuliau eraill

Bydd y Trwyddedai'n atebol am yr holl drethi, ardrethi a threuliau eraill sy'n daladwy yn sgil defnyddio'r Drwydded neu sy'n deillio o hynny.

Y Trwyddedai fydd yn gyfrifol am dalu am unrhyw drydan a dŵr a ddefnyddir.

## 13 Yswiriant

Bydd y Trwyddedai'n indemnio Bro Morgannwg yn erbyn unrhyw a phob hawl, cam gweithredu, gorchymyn, cost neu achos trydydd parti, gan gynnwys ar gyfer pob anaf boed yn angheuol neu beidio, am beth bynnag sy'n codi a sut bynnag y mae'n codi o ganlyniad i roi'r Drwydded arfaethedig.

Bydd y Trwyddedwr yn yswirio'r adeilad a'r Trwyddedai fydd yn gyfrifol am yswirio ei offer.

Bydd y Trwyddedai'n cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o bolisïau yswiriant a drefnwyd gyda Chwmni Yswiriant ag enw da, fel y gallai fod yn ofynnol gan y Pennaeth Cyllid (Is-adran Yswiriant).

**O.N.** Bydd angen dangos dogfennau yswiriant, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cyn rhoi unrhyw drwydded.

### 14 Eiddo'r Cyngor

Pan fo Trwydded yn caniatáu defnyddio unrhyw eiddo sy'n berchen i'r Cyngor, tiriog neu fel arall, bydd y Trwyddedai'n sicrhau y caiff yr eiddo ei ddefnyddio gyda gofal rhesymol ac y caiff ei ddychwelyd i'r Cyngor mewn cyflwr nad yw'n waeth nag ar ddechrau cyfnod y Brydles, ac eithrio traul deg, ddisgwyliedig. Caiff unrhyw eiddo a gollir neu a ddifrodir ei adnewyddu neu ei atgyweirio fel sy'n briodol i foddhad Rheolwr Gweithredol priodol y Cyngor.

### 15 Niwsans / Aflonyddwch

Ni fydd y Trwyddedai'n achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch wrth arfer telerau'r Drwydded ac ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu i sbwriel gael ei adael

ar dir sy’n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Trwyddedai’n darparu (yng nghyffiniau agos y ciosg) cynwysyddion priodol er mwyn taflu sbwriel a bydd yn sicrhau y caiff yr holl sbwriel o’r fath ei symud a’i waredu’n briodol mor aml ag y mae angen ond mewn unrhyw achos heb fod yn llai nag unwaith yr wythnos.

Nid yw'r Trwyddedai i ddefnyddio cynwysyddion y Cyngor ar gyfer ei sbwriel a'i wastraff.

**16 Dirymu**

Ceidw Cyngor Bro Morgannwg fel Trwyddedwr yr hawl i ddirymu’r Drwydded ar unrhyw adeg wedi rhoi 24 awr o rybudd ysgrifenedig, os bydd y Trwyddedai yn torri unrhyw un o’r cyfamodau sydd yn y Drwydded.

**17 Nodweddion**

Bydd y Drwydded yn bersonol i’r Trwyddedai ac ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, yn gallu cael ei haseinio, ei throsglwyddo na’i gwaredu mewn ffordd arall heblaw am drwy ei hildio i’r Trwyddedwr.

**18 Addasiadau**

Ni chaniateir unrhyw newidiadau, addasiadau, diwygiadau nac ychwanegiadau i hawliau neu freintiau a roddir yn y Drwydded.

**19 Cydymffurfiaeth**

Bydd y Trwyddedai’n caniatáu i'r Trwyddedwr gael mynediad i gynnal profion cydymffurfio pan fo angen. Y Trwyddedai fydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag unrhyw statud neu reoliadau yn y dyfodol sy'n gyfrifoldeb i'r Trwyddedai ac am ddarparu gwybodaeth am y canlyniadau i'r Trwyddedwr pan ofynnir amdano.

**20 Rhwymedigaethau statudol**

Bydd y Trwyddedai’n cydymffurfio â’r holl ofynion, rheoliadau, is-ddeddfau a rheolau cynllunio statudol a thrwyddedu, a gofynion neu gydsyniadau cyfreithiol eraill sy’n berthnasol neu sy’n codi o ganlyniad i roi’r Drwydded.

**21 Diogelwch y Cyhoedd**

Rhaid i’r Trwyddedai gydymffurfio â'r holl ganllawiau a rheoliadau diogelwch cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 neu unrhyw feirws arall.

Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Trwyddedai i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i’r Trwyddedai gydymffurfio ar unwaith. Os digwydd hyn, ad-delir y Trwyddedai ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r Trwyddedwr yn gwahardd masnachu.

**22 Diogelwch y Cyhoedd**

Rhaid i’r Trwyddedai gydymffurfio â'r holl ganllawiau a rheoliadau diogelwch cyhoeddus sy'n ymwneud â Covid-19 neu unrhyw feirws arall.

Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Trwyddedai i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio ar unwaith. Os digwydd hyn, ad-delir y Trwyddedai ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r Trwyddedwr yn gwahardd masnachu.

**23 Annilysu**

Ceidw'r Cyngor yr hawl, fel y barno, i beidio ag ystyried, neu i ystyried yn annilys, unrhyw dendrau gan unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni nad yw wedi cyflawni ei ymrwymiadau statudol neu delerau unrhyw drwydded, prydles neu gontract neu gytundeb arall yn y gorffennol gyda'r Cyngor.

Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid nodi na fydd unrhyw dendr gan Drwyddedai blaenorol ar gyfer un o gonsesiynau'r Cyngor sydd ag ôl-ddyledion mewn perthynas â Ffioedd Trwydded, Costau neu Ardrethi Annomestig neu sydd dan ymchwiliad Iechyd yr Amgylchedd ar y dyddiad cau ar gyfer tendrau yn cael ei ystyried.

**24 Dim gwarant**

Nid yw'r Cyngor yn gwneud nac yn rhoi unrhyw warant yn ymwneud â'r safle neu ei addasrwydd at ddefnydd arfaethedig y Trwyddedai.

**25 Telerau Ychwanegol**

Bydd y Drwydded yn cynnwys y fath delerau ac amodau eraill ag y bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg o bosibl, yn ôl ei disgresiwn, yn ystyried yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r ciosg.

**26 Ymweld**

Mae ymweliadau mewnol drwy apwyntiad yn unig ac i'w trefnu drwy Rebecca Johnson (rjohnson@valeofglamorgan.gov.uk).

## 27 Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer pob cynnig yw hanner dydd ar 27 Ebrill 2026. Byddwn yn hysbysu pob cynigydd o'r canlyniad nid yn hwyrach na 4 wythnos ar ôl y dyddiad cau.

## 28 Deunyddiau'r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion

Bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno cynnig manwl a fydd yn cynnwys:

A. **Cynnig Ffi;**
B. **Datganiad o Fwriad;**
C. **Amserlen/Rhaglen Arfaethedig ar gyfer agor;**
D. **Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd;**
E. **Tystiolaeth o Sgôr Hylendid Bwyd neu bod y trwyddedai yn ymgymryd â hyn.**

## A. Cynnig Ffi

Nodwch y dylai cynigion gynnwys y wybodaeth ganlynol:

I. **Manylion Adnabod y Trwddedai arfaethedig** a manylion cyswllt;

II. **ffi am y drwydded**;

III. Enw a manylion cyswllt llawn eich **cyfreithiwr**;

IV. **Dim cynigion wedi'u mynegi fel ffigwr canrannol o gynigion gan barti arall;**

V. **Nid oes rhaid i'r Cyngor** dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig;

VI. **Bydd unrhyw arwydd o gydgynllwynio** gan gynigydd gydag unrhyw barti arall yn diddymu'r cynnig.

## B. Datganiad o Fwriad

Rhaid i gynigwyr gyflwyno datganiad o fwriad fel rhan o'u cynnig i ddangos eu gallu i reoli buddiant consesiwm yn effeithiol.  Dylai hyn gynnwys asesiad o gapasiti ariannol a sefydliadol y Tenant arfaethedig a chynnwys y canlynol:

- Amlinelliad byr o'r weledigaeth/cynnig ar gyfer y defnydd o'r consesiwm, gan gynnwys bwydlen enghreifftiol sy'n dangos ansawdd ac amrywiaeth y cynnig arfaethedig os yw'n briodol

- Strwythur rheoli clir a manylion o ran sut y bydd yr consesiwm yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion statudol.

- Amlinelliad byr o'r amcanion a'r strategaethau ar gyfer marchnata.

## C. Amserlen/Rhaglen Arfaethedig ar gyfer agor

Bydd gofyn i gynigwyr fel rhan o'u cynnig gyflwyno **Amserlen/Rhaglen ddangosol** ar gyfer cyflawniad ffisegol ac ariannol eu cynnig.

## D. Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd

Gofynnir i gynigwyr amlinellu sut y bydd eu cynllun busnes yn ategu ac yn cynorthwyo'r ymdrech fyd-eang i leihau newid hinsawdd ac yn dangos rhinweddau amgylcheddol y sefydliad. Rhaid i gynigwyr hefyd gynnwys eu polisi plastig untro. Gweler **Atodiad B** i gael gwybodaeth am Brosiect Sero'r Cyngor.

## E. Sgôr Hylendid Bwyd

Bydd gofyn i gynigwyr gyflwyno tystiolaeth o isafswm sgôr hylendid bwyd o 3 neu ymrwymiad y bydd yn cael ei gyflawni o fewn 6 mis i'r drwydded gael ei rhoi yn cael ei ystyried ymhellach, a bydd y cyflwyniad tendr yn annilys.

**Datganiad o'r Dull Cadwraeth**

Y dyddiad cau disymud ar gyfer cyflwyno ceisiadau tendr yw **12pm, 27 April 2026.**

Rhaid cyflwyno'r cynnig yn yr amlen swyddogol gyda'r Label Tendr swyddogol wedi ei rhoi ar yr ochr allan â'r teitl, **"Tendr Ciosg, Parc Gwledig Porthceri"**.

Rhaid selio'r amlen yn dynn a rhaid iddi BEIDIO â dangos unrhyw farc a allai ddatgelu pwy yw'r anfonwr/ymgeisydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir drwy e-bost.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod at y:

**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri CF63 4RU**

Bydd y Cyngor yn **diystyru cynigion** a gaiff eu cyflwyno yn hwyr, eu hanfon i'r cyfeiriad anghywir, cynigion nad ydynt yn cydymffurfio neu sy'n anghyflawn.

**Nid oes rhaid i'r Cyngor na'i asiantau dderbyn unrhyw gynnig.** Ar ben hynny nid oes rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y cynnig ariannol uchaf, ac mae'n cadw'r hawl i atal neu newid y broses gynnig ar unrhyw adeg heb unrhyw oblygiadau o ran y costau a ysgwyddwyd gan y cynigwyr. Mae'r amser a'r gost sy'n deillio o baratoi cynnig i'w ysgwyddo'n llwyr gan y cynigydd ac ni ellir dal y Cyngor yn gyfrifol am gostau o'r fath.

## 29 Dethol y cynigydd a ffefrir a'r meini prawf sgorio a'r pwysoliad

Caiff y Cynigydd a Ffefrir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol sef 40% pris a 60% ansawdd:

**Ffi (pwysoliad o 40%)**

Yn seiliedig ar y 'Bid Fifi' a gwflwynwyd gan y cynigydd; a

### Ansawdd (pwysoliad o 60%)

a. **Datganiad o fwriad** yn seiledig ar
  - amlinelliad o'r weledigaeth/cynnig ar gyfer defnydd y consesiwn gan gynnwys dewislen enghreifftiol sy'n arddangos ansawdd ac amrywiaeth y cynnig arfaethedig os yw'n briodol **(40)**,
  - strwythur rheoli clir a manylion sut y bydd y consesiwn yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan gynnwys bodloni unrhyw ofynion statudol (**20**)
  - amlinelliad byr o'r amcanion a'r strategaethau ar gyfer marchnata **(10)**

b. **Amserlen/Rhaglen Ragarweiniol (10)**

c. **Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd** Sut mae'r cynigion yn cyd-fynd â nodau Ymrwymiadau Prosiect Sero'r Cyngor drwy gyfoethogi

bioamrywiaeth ac ymgorffori seilwaith gwyrdd, gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni. **(20)**

d. **Sgôr Hylendid Bwyd** Ni fydd unrhyw gynigydd sy'n methu â darparu tystiolaeth o'r sgôr ofynnol neu ymrwymiad y bydd yn cael ei gyflawni o fewn 6 mis i'r drwydded gael ei rhoi yn cael ei ystyried ymhellach, a bydd y cyflwyniad tendr yn annilys.

## 30 Sgorio

**Ffi 40%**

Mae asesiad ffi yn cyfrif am 40% o'r gwerthusiad.
Bydd y cynigydd sydd â'r cyfanswm uchaf am ffi yn derbyn yr uchafswm marciau (100% o'r 40% cyffredinol sydd ar gael), gyda'r holl gynigion eraill wedi'u cyfrifo fel gwahaniaeth canrannol.
Bydd y cynigydd uchaf nesaf yn derbyn gwerth canran yn seiliedig ar gyfanswm eu rhent a'r cyfanswm uchaf a dderbyniwyd (h.y. (nesaf uchaf / uchaf) *100). Bydd hyn yn cael ei luosi â 0.4 i gyfrifo swm y 40% sydd ar gael i'w ddyfarnu.

**Ansawdd 60%**

Mae asesiad ansawdd yn cyfrif am 60% o'r gwerthusiad, mae hyn wedi'i rannu'n bedwar agwedd: Datganiad o fwriad, amserlen/rhaglen ragarweiniol, datganiad effaith amgylcheddol a newid hinsawdd, bwydlen enghreifftiol a'r sgôr hylendid bwyd. Bydd y meini prawf ansawdd yn cael eu gwerthuso'n seiliedig ar yr is-feini prawf a'r pwysiadau a amlinellir yn adran 24 uchod.

Bydd y cynigydd gyda'r cyfanswm uchaf am ansawdd yn derbyn yr uchafswm marciau (100% o'r 60% cyffredinol sydd ar gael), gyda'r holl gynigion eraill wedi'u cyfrifo fel gwahaniaeth canrannol.

Bydd y cynigydd uchaf nesaf yn derbyn gwerth canran yn seiliedig ar gyfanswm eu rhent a'r cyfanswm uchaf a dderbyniwyd (h.y. (nesaf uchaf / uchaf) *100). Bydd hyn yn cael ei luosi â 0.6 i gyfrifo swm y 60% sydd ar gael i'w ddyfarnu.

| Cwestiwn | Disgrifiad | Pwysoliad |
|---|---|---|
| a. | Datganiad o Fwriad | 70% |
| b. | Amserlen/Rhaglen Ragarweiniol | 10% |
| c. | Datganiad Effaith Amgylcheddol a Newid Hinsawdd | 20% |
| d. | Sgôr Hylendid Bwyd neu bod y trwyddedai yn ymgymryd â hyn | Pasio neu fethu |

## Methodoleg Sgorio

| Sgôr | Ymateb |
|---|---|
| 5 | Cyflwynwyd tystiolaeth ragorol ac nid yw gwybodaeth a/neu ddogfennau atodol yn gadael unrhyw amheuaeth nad yw'r gofynion sylfaenol yn debygol o gael eu rhagori'n sylweddol. Mae'n amlwg y bydd gwerth ychwanegol sylweddol yn cynnwys agweddau sy'n unigryw i'r darparwr gwasanaeth hwn. |
| 4 | Cyflwynwyd tystiolaeth glir iawn ac mae'r wybodaeth a/neu ddogfennau atodol o ansawdd uchel iawn yn nodi ei bod yn debygol y caiff y gofynion sylfaenol eu rhagori. Mae'n amlwg y bydd rhywfaint o werth ychwanegol. |
| 3 | Cyflwynwyd tystiolaeth briodol ac mae'r wybodaeth a/neu ddogfennau atodol o ansawdd boddhaol yn nodi ei bod yn debygol y caiff y gofynion sylfaenol eu rhagori. |
| 2 | Cyflwynwyd rhywfaint o dystiolaeth ac mae'r wybodaeth a/neu ddogfennau atodol o ansawdd boddhaol yn nodi ei bod yn debygol y caiff y gofynion sylfaenol eu bodloni. |
| 1 | Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth ac mae'r wybodaeth a/neu ddogfennau atodol o ansawdd anfoddhaol yn nodi ei bod yn annhebygol iawn y caiff y gofynion sylfaenol eu bodloni. |
| 0 | Naill ai nid yw'r cwestiwn wedi'i ateb neu mae'n amlwg nad yw'r ateb a roddwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol. |

## 31 Dull Tendro

Cynigir y ddrwydded yn yr adeilad drwy dendr anffurfiol. Bydd cynigion a dderbynnir y tu allan i'r meini prawf tendro llym a nodir yn y paragraffau blaenorol o dan **"Dyddiad Cau a'r Cyfeiriad i Gyflwyno Cynigion"** yn cael eu hanwybyddu.

## 32 Crynodeb O Ragdybiaethau Gweithredol Ar Gyfer Cynigwyr

Fel rhagdybiaeth weithredol, dylai cynigwyr ystyried y canlynol, wrth baratoi eu cynnig:

a) **Caniatadau Statudol –** Byddai unrhyw drwydded yn cael ei rhoi ar y sail y byddai'r Trwyddedai sy'n dod i mewn yn gyfrifol am sicrhau'r holl ganiatadau statudol.

b) **Ffioedd Syrfëwr a Chyfreithiol –** Bydd y cynigydd a ffefrir yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor a chostau cyfreithiol rhesymol.

Y Cynigydd a Ffefrir fydd yn gyfrifol am ffioedd syrfëwr y Cyngor ac unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol.

## 33. Ymwadiad

Er y cymerwyd pob gofal wrth baratoi'r papur Marchnata hwn, **ni ellir gwarantu** cywirdeb ei gynnwys. **Nid yw'r cynnwys yn awgrymu unrhyw gynnig neu gontract** ac mae wedi'i baratoi i gynorthwyo cynigwyr yng nghyswllt y broses gynnig.

Nid yw'r Cyngor yn gwneud, na'n rhoi, ac nid oes gan unrhyw un o gyflogeion y Cyngor awdurdod i roi na rhoi arwydd o warant parthed yr eiddo hwn nac o safbwynt cywirdeb neu drylwyredd yr wybodaeth a gaiff ei rhoi i gynigwyr. Rhaid i ddarpar gynigwyr fodloni eu hunain drwy archwilio neu fel arall gywirdeb y papur hwn a'r wybodaeth sy'n mynd gydag ef.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio unrhyw ran o'r papur a bydd yn hysbysu cynigwyr yn ysgrifenedig o unrhyw amrywiad o'r fath.

## 34. Deddf Camliwio

Cynigir yr eiddo yn dibynnu ar gontract a heb ragfarn. Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir ac nid oes ymrwymiad arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall ar gyfer yr eiddo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, ond ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamliwiad a wneir yn y manylion hyn neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti â diddordeb fodloni ei hun bod y manylion hyn yn gywir. Nodir y manylion hyn fel canllaw cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw gynnig neu gontract.

## Atodiad A: Prosiect Sero

Ym mis Gorffennaf 2019, ymunodd Cyngor Bro Morgannwg â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill ledled y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd mewn ymateb i adroddiad Newid Hinsawdd Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar effaith cynhesu byd-eang. Yn dilyn hyn, gwnaethom ddatgan argyfwng natur ym mis Gorffennaf 2021. Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030, gofalu am natur ac annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.

Yn sail i Brosiect Sero mae 18 her sy'n cwmpasu gwaith cyngor Bro Morgannwg, gan gynnwys ynni, gwastraff, dŵr, trafnidiaeth, ein tir, adeiladau ac asedau, teithio staff, caffael a mwy. Mae hyn wedi llunio o amgylch yr angen i:

- Ddangos arweinyddiaeth gref - rhaid i'r Cyngor arwain drwy esiampl.
- Cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol – rydym yn helpu i lywio gweithgareddau pobl eraill drwy ein polisïau a'n gwasanaethau a lle gallwn gael dylanwad sylweddol ar weithredoedd pobl eraill.
- Gwneud gwahaniaeth nawr – sut mae'r Cyngor yn gweithredu fel sefydliad, cyflogwr, meddiannwr adeiladau, tirfeddiannwr a landlord.

Mae Her 16 yn nodi bod yn rhaid i'r Cyngor reoli a defnyddio ein tir, adeiladau ac asedau wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, rhesymoli'r hyn sydd ei angen arnom a gwella cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni. Fel rhan o hyn, mae gennym ymrwymiad i annog lesddeiliaid i fod yn fwy cynaliadwy yn y ffordd y maent yn defnyddio eiddo a brydlesir gan y Cyngor.

Mae copi o Gynllun Her Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2021-2030 ynghyd â gwybodaeth am Brosiect Sero ar gael ar y ddolen hon: Prosiect Sero - Beth yw'r cynllun? Cymryd rhan yn y Fro

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG